

Elin Jones AC  
Llywydd

8 Mai 2019

Annwyl Lywydd,

### **Bil Senedd ac Etholiadau**

Thank you for giving evidence to us at our meeting on 7 May 2019. We agreed to write with further questions not reached during the evidence session and would welcome a response by 16 May 2019.

### **Comisiwn Etholiadol**

Bydd y Comisiwn Etholiadol yn cadw cyfrifoldeb am etholiadau'r DU. Ym mha ffordd y bydd hyn yn effeithio ar atebolrwydd y Comisiwn i'r Cynulliad?

Pa ymgysylltiad ydych chi wedi'i gael â'r Comisiwn Etholiadol ynglŷn â diwyg y ffurflenni cofrestru newydd?

Mewn tystiolaeth, soniodd awdurdodau lleol y gallai'r Bil llywodraeth leol drefnu deddfwriaeth alluogi gyffredinol er mwyn mynd ar drywydd gweinyddiaeth ddigidol. Ym mha ffordd y byddai hyn yn effeithio ar etholiadau'r Cynulliad?

Yn ei thystiolaeth, mae Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol yn awgrymu "the Welsh Assembly should scope, commission, oversee, monitor and pay each EMS supplier directly for the software changes". Beth yw eich barn am y sylwadau hyn?

### **Anghymhwys**

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi o'r blaen mai ei blaenoriaeth ar gyfer y darpariaethau sy'n ymwneud ag anghymhwys yw sicrhau bod y gyfraith yn y maes hwn mor glir â phosibl. A ydych chi'n fodlon bod y darpariaethau fel y'u drafftwyd yn cyflawni'r nod hwn?

Awgrymwyd y byddai'n haws barnu bod rhywun sy'n tyngu'r llw i ddod yn Aelod Cynulliad wedi ymddiswyddo o rôl a fuasai wedi ei wneud yn anghymwys. A ydych chi'n dal i fod o'r farn y byddai hyn y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad?



Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol mewn tystiolaeth lafar yr wythnos diwethaf fod gwaith i'w wneud mewn perthynas â'r rhan hon o'r Bil. Er enghraifft, dywedodd nad yw'n darparu ar gyfer anghymhwys staff Comisiwn y Cynulliad. Beth yw eich barn am ei sylwadau?

Sut y bydd y newidiadau i'r Bil ynghylch anghymhwys yn cael eu cyhoeddi?

Ar ba bwynt y bydd yr anghymhwys rhag dal swydd gyhoeddus benodol yn dod i rym bellach a sut mae'r Bil yn cyflawni'r newid hwnnw?

### **Darpariaethau Comisiwn y Gyfraith**

Dywedasoch wrth y Pwyllgor yn flaenorol fod rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith wedi cael ei weld ar adeg cyflwyno'r Bil fel ffordd resymol o gyflwyno'r darpariaethau hyn. A ydych chi'n dal i fod o'r farn mai dyma'r ffordd fwyaf priodol o ddiwygio cyfraith etholiadol?

### **Supplementary questions**

A fydddech yn ymrwmo i beidio â chynnal trafodiadau Cyfnod 2 hyd nes bod y gwelliannau a gynigiwyd gennych i adran 27 wedi'u cyhoeddi a'u costio'n llawn, gan roi'r cyfle inni a'r rhanddeiliaid graffu arnynt?

Pa rôl y dylai sefydliadau addysgol ac awdurdodau lleol ei chwarae yn yr ymgyrch ymwybyddiaeth ar gyfer y bobl ifanc hynny sydd y tu allan i'r system ysgolion?

Pe bai'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn rhoi hawliau i garcharorion a dinasyddion tramor cymwys bleidleisio, a ydych chi'n credu y byddai'r gwahaniaeth hwn o ran etholiadau Cynulliad ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru yn peri dryswch? A ydych yn bwriadu cyflwyno gwelliannau i gwmpasu'r materion hyn yng Nghyfnod 2 y Bil?

Yn gywir,



**Mick Antoniw**

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.  
We welcome correspondence in Welsh or English.

